

Archifdy Sir Gâr

Cyfarwyddyd Hawlfraint

Cyflwyniad

Hawlfraint yw hawl gyfreithiol pob awdur i gopïo, i gyhoeddi neu i berfformio ei waith ac i gyfathrebu hynny i'r cyhoedd - fel arfer bydd hawliau hawlfraint yn cael eu torri os bydd unrhyw un yn gwneud hyn heb yn gyntaf dderbyn caniatâd perchennog yr hawlfraint. I bob pwrpas, mae pob copi sy'n cael ei wneud gan Archifau Sir Gaerfyrddin yn dod o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth gyfredol ar hawlfraint.

Hawlfraint ac Archifau

Mae'r mwyafrif o'r dogfennau sydd yng ngofal Archifau Sir Gaerfyrddin yn yn cael eu categorio fel gweithiau llenyddol ac yn cael eu diogelu trwy hawlfraint hyd 2039. Golyga hyn na cheir atgynhyrchu'r dogfennau heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint oni bai bod eithriad yn bodoli i'r hawlfraint. Mae eithriad yn caniatáu i Archifau Sir Gaerfyrddin wneud un copi o ddogfen cyn belled â bo'r defnyddiwr yn cwblhau datganiad wedi'i arwyddo fydd yn dweud bod ei angen ar gyfer astudiaeth breifat neu ymchwil anfasnachol yn unig.

Ni chaiff Archifau Sir Gaerfyrddin, fel arfer, gopïo unrhyw waith artistig oni bai fod yr hawlfraint wedi dod i ben, sef 70 mlynedd wedi marwolaeth yr awdur fel arfer. Fodd bynnag, mae'r rheolau ynglŷn â hyd hawlfraint archifau yn gymhleth ac mae yna wahanol ddarpariaethau yn arbennig ar gyfer ffotograffau.

Eithriadau i'r deddfau Hawlfraint

Mae unrhyw hawlfraint sydd gan y Goron ar y cofnodion yn cael ei hildio. Mae ildio hawlfraint y Goron yn golygu y gall eitemau nad oeddent wedi'u cyhoeddi pan gawsant eu hadneuo - e.e. cofnodion sesiynau'r Llys Chwarter - gael eu hatgynhyrchu heb dderbyn caniatâd ffurfiol cyn belled â'u bod yn cael eu hatgynhyrchu'n gywir ac nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Mae copïau o ddychweliadau cyfrifiad hefyd yn rhai lle mae'r hawlfraint yn cael ei hildio.

Fe ellir copïo cofrestrï plwyf a chofrestrï eraill sy'n cofnodi bedydd, priodas a chladdu yn ogystal â mapiau degwm a'u rhaniadau a hynny heb gwblhau ffurflen datgan hawlfraint.

Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth ar hawlfraint, gweler :

Tîm Padfield. *Copyright for Archivists and Records Managers*, Swyddfa Cofnodiadau Cyhoeddus, 6ed Gyfrol (2019) neu ewch i dudalennau gwefan yr Archifau Cenedlaethol: http://www.facetpublishing.co.uk/title.php?id=304486&category_code=7

DS Bwriadwyd y ddogfen hon i roi gwybodaeth yn unig ac nid yw yn rhoi unrhyw gyngor cyfreithiol.